

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Chwefror, 2023.

1. **Presennol:** John Jones (Cadeirydd), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Sarah Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Williams (Prenteg), Megan Lloyd Williams (Golan), Stephen Churchman, June Jones (Cyngorwyr Cyngor Gwynedd)

Croesawyd Enid Egginton i'w chyfarfod cyntaf fel Cyngorydd dros Garndolbenmaen.

2. **Ymddiheuriadau:** Iddon Edwards, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Michael Jones (Garndolbenmaen), John Till (Golan)
3. **Ddim yn bresennol:** Neb
4. **Datgan buddiant:** Megan Lloyd Williams - Eitem 10  
Richard Parry - Eitem 10
5. **Cywirdeb y cyn-gofnodion:** Richard Williams yn cynnig a Richard Parry yn eilio.
6. **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:**

Etholiad 2022: Trafodwyd yr Etholiad ym Mhwyllgor Ardal Arfon Dwyfor o Un LLais Cymru ar y 1af o Chwefror, 2023. Awgrymwyd fod pawb sydd yn anhapus hefo'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd yn pasio'r wybodaeth berthnasol ymlaen at Mel ab Owain, Un Llais Cymru ac y bydd yntau wedyn yn ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd a Phennaeth yr Adran gan anfon copi at Siân Gwenllian AS.

Clerc i anfon yr wybodaeth berthnasol at Mel ab Owain.

Bwrdd gwybodaeth ar gyfer Eglwys Ynys Cynhaearn: Adroddwyd fod y Cyngor Cymuned wedi cael eu gwrthod ar gyfer grant gan Gronfa Celfyddydau Cymunedol gan Gyngor Gwynedd, hyn oherwydd nad oedd sôn am ymgysylltu cymunedol yn y cais. Dywedodd y Clerc fod posib apelio'r penderfyniad yma. Clerc i apelio'r penderfyniad.

Clerc i gysylltu â Choleg Llandrillo Menai, Safle Pwllheli i weld a fyddai diddordeb gan yr Adran Hanes / Gymraeg gydweithio â ni ar y prosiect.

Clerc i barhau gyda gwneud cais i'r Loteri Genedlaethol ac i gysylltu gyda Chronfeydd arian eraill posib.

Gofynnwyd a oedd y prosiect yma yn rhywbeth oedd y Cynghorwyr yn dymuno ei wneud hyd yn oed os nad oedd arian grant ar gael. Y penderfyniad oedd ei fod o. Richard Williams yn cynnig a Sarah Jones yn eilio.

Llwybrau Cyhoeddus: Derbyniwyd ymateb gan Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy parthed y canlynol:

- Llwybr rhif 5: Angen trafod y gwelliannau gyda pherchennog y tir.
- Llwybr rhif 75: Gobeithio mynd allan i ail ymweld â'r llwybr yma yn y misoedd nesaf. Dywedodd bod yna lawer o waith gwario yma.
- Cwm Ystradllyn: Yn gobeithio cael cyfarfod gyda swyddogion o'r Parc Cenedlaethol yn fuan yn y flwyddyn i drafod y rhwydwaith llwybrau.
- Llwybr Ceffyl rhif 102: Contractwr wedi ei benodi i osod giât newydd.

Clerc i gysylltu gyda Dewi i ofyn a fyddai'n bosib i'r Cynghorwyr fod yn rhan o'r drafodaeth a chael bod yn bresennol ar gyfer unrhyw ymweliad safle.

Parthed pwy fyddai'n gyfrifol petai rywun yn cael damwain neu niwed ar y llwybrau cyhoeddus, yr ateb a dderbyniwyd oedd:

*"Yn gyffredinol os mae rhywun yn anafu oherwydd diffygion i'r arwyneb neu ar strwythur fel pont wedyn mae yswiriant Cyngor Gwynedd yn cyfro hyn. O dan adran 154 Ddeddf Priffyrdd 1980, y tirlfeddiannwr sydd yn gyfrifol os mae'r anaf neu gais am iawndal yn dod ar ôl cael damwain oherwydd llystyfiant o'r ochr neu wrth ben ac o dan adran 146 o'r un ddeddf y tirlfeddiannwr sydd yn gyfrifol o gamfeydd a giatiau."*

Dyma linc i Bolisiau Hawliau Tramwy Cyhoeddus:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Parcio,-ffyrdd-a-theithio/Polisiau-Hawliau-Tramwy.pdf>

Pont y Traeth, Prenteg: Derbyniwyd ymateb gan Ymgynghoriaeth Gwynedd yn dweud fod y bont wedi ei archwilio diwethaf ar y 31/05/2022 ac y byddent yn fodlon cael cyfarfod safle i drafod y pryderon ymhellach. Clerc wedi cysylltu i ofyn am ddyddiadau posib, heb dderbyn ymateb hyd yma.

Hwb Eifionydd: Cadarnhawyd bod e-bost wedi ei anfon at y panel yn eu gwahodd i roi cyflwyniad i'r Cynghorwyr ar sefydlu panel cleifion. Heb dderbyn ymateb hyd

yma. Roedd siomedigrwydd ymysg y cyngorwyr nad oedd ymateb wedi ei dderbyn. Clerc i gysylltu hefo Hwb Eifionydd i ddatgan eu siomedigrwydd ymhellach.

Cyfarfodydd Aml-leoliad: Gofynwyd i Anwen Davies o Adran Economi a Chymuned yn gofyn a fyddai'n bosib iddi wneud cyswllt gyda phwyllgor pob neuadd/ganolfan o fewn y plwyf i egluro pa gymorth sydd ar gael i gael mynediad i'r we. Heb dderbyn ymateb hyd yma, clerc i ddilyn fyny.

Dafarn Faig: Ateb wedi'i dderbyn gan Merfyn Morris o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i ddweud ei fod yn credu bod y gwaith o dorri'r gordyfiant bellach wedi'i wneud. Cadeirydd i ymweld â'r safle ac adrodd yn ôl.

Diffibriliwr, Prenteg: Adroddwyd bod y rhodd ariannol o £1,500 gan The Crag and Cave Club wedi'i dderbyn. Cyswllt wedi ei wneud gyda'r Defib Store i archebu diffibriliwr a chât metal heb glo. Penderfynwyd mynd gyda thrydanwr mae'r Gwasanaeth Ambiwllans yn ei ddefnyddio. Clerc i gysylltu â Tomos o'r Gwasanaeth Ambiwllans i gadarnhau hyn. Clerc i wneud trosglwyddiad banc i dalu am y diffib ac i drefnu iddo gael ei osod.

Hysbysfwrdd Pentrefelin: Cafwyd pris arall gan Saer Lleol. Pris o £250.00 i greu hysbysfwrdd allan o bren caled. Derbyniwyd y pris yma. Clerc i gysylltu hefo'r saer.

Adroddiad Pentrefi: Cadarnhawyd bod e-bost wedi'i anfon at yr Adran Briffyrdd i adrodd am y gwaith oedd ei angen ym mhob pentref. Heb gael ymateb i'r e-bost. Clerc i ddilyn fyny.

Cae Chwarae, Penmorfa: Cytunwyd i dalu am bedwar toriad yn unig i Gae Chwarae Penmorfa.

E-bost wedi ei anfon i'r contractwyr yn gofyn iddynt anfon anfoneb yn fisol ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau gan nodi dyddiad y toriad ar yr anfoneb. Clerc i sicrhau bod y contractwyr yn cydnabod hyn yn ysgrifenedig.

Rheolau Claddu: Clerc wedi gwneud mân ychwanegiadau i'r rheolau claddu. Megan Lloyd Williams yn cynnig derbyn yr ychwanegiadau a Richard Williams yn eilio. Clerc i anfon y Rheolau Claddu newydd i'r ymgymerwyr gan ofyn iddynt eu defnyddio o hyn ymlaen.

- 7. Mynwentydd:** Awgrymwyd bod angen i'r contractwyr gael a rhoi arwydd yn dweud "gwaith ar ei hanner" pan nad ydynt yn cael y cyfle i orffen y gwaith mewn diwrnod. Cadeirydd i gysylltu gyda'r contractwyr ac adrodd yn ôl.

8. **Llwybrau Cyhoeddus:** Adroddwyd bod arwydd llwybr Moel y Gest ger Capel Bryn Melyn wedi diflannu a bod yr arwydd ym Mhont Faen wedi disgyn. Clerc i gysylltu â Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

9. **Adroddiad Pentrefi:**

Golan: Adroddwyd bod dirywiad yn y lôn ger Tyddyn Madyn. Dŵr yn llifo o'r ochor chwith i'r dde pan mae tywydd garw ac yn pantio yn ddrwg. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.

Penmorfa: Dim

Prenteg: Dim

Garndolbenmaen: Dim

Pentrefelin: Adroddwyd bod diddordeb mewn cael cae chwarae i'r pentref. Soniwyd bod yna dipyn o blant ifanc yn y pentref fyddai'n elwa. Huw Pritchard i adrodd ymhellach pan fydd ganddo wybodaeth bellach.

Adroddwyd bod teiars wedi cael eu gwaredu ar y lôn o Bont y Wern i gyfeiriad Treflys ger Bryn Melyn. Clerc i gysylltu gyda Gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd.

Bryncir: Adroddodd Stephen Churchman ei fod wedi ysgrifennu at weinidog Llywodraeth Cymru parthed pryderon goryrru yn y pentref. Cafwyd ateb gan Lee Waters AS yn dweud byddent yn adolygu'r terfyn cyflymder yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau newydd ar osod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Golyga hyn na fydd y mater yn cael ei adolygu tan 2024. Dywedodd Stephen nad yw'n fodlon hefo'r ymateb ac y bydd yn cysylltu yn ôl hefo'r gweinidog i ddatgan ei anfodlonrwydd.

10. **Rhoddion Ariannol:** Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol:

- Canolfan Gymdeithasol Golan: £300.00
- Canolfan Gymdeithasol Pentrefelin: £300.00
- Neuadd Goffa Penmorfa: £300.00
- Neuadd Prenteg: £300.00
- Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog: £300.00
- Eisteddfod Cylch Garndolbenmaen: £300.00
- Urdd Adran Eryni: £300.00

- Dawns i Bawb: £200.00

Petai cais hwyr yn cael ei dderbyn gan gymdeithasau neu fudiadau sydd yn lleol i Ddolbenmaen, penderfynwyd bod modd eu cysidro ar y pryd yn hytrach nag aros tan y ffenest ymgeisio nesaf. Megan Lloyd Williams yn cynnig a Clifford Williams yn eilio.

**11. Penodi Archwilydd Mewnol:** Penderfynwyd ail benodi Hughes Jones, Dyson. Clerc i gysylltu.

**12: Gohebiaeth**

- a. Cyngor Gwynedd - Rhybudd Cau Ffordd i'r Gogledd o Dyddyn Felin (Rhannwyd)
- b. Cyngor Gwynedd - Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn. Cyfle i ddweud eich dweud ar y Cynllun Drafft. Holiadur i'w gwblhau erbyn y 6ed o Fawrth.
- c. Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith mis Chwefror.

**13: Gohebiaeth Ychwanegol:**

- a. Unllais Cymru - Grant Ymgysylltu â Democratiaeth
- b. Unllais Cymru - Ymgynghoriaeth ar ddrafft coffau cyhoeddus yng Nghymru
- c. Unllais Cymru - Lansio cynllun grant trydydd sector 'Amser' a hysbyseb am aseswyr annibynnol.
- ch. Parc Cenedlaethol Eryri - Prosiect Ardaloedd Cadwraeth: Cynllun Grant
- d. Unllais Cymru - Gofyn am bleidlais i Gricieth Creadigol
- dd. Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Penodi pedwar aelod newydd i rolau llywodraethu
- e. Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog - Ymgynghoriad 26 a 27 Ionawr (Rhannwyd 17/1/23)
- f. Unllais Cymru - Cynhadledd Flynyddol WISERD 2023.
- ff. Unllais Cymru - Arolwg Gweithgarwch o'r Amgylchedd Hanesyddol ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd.
- g. Unllais Cymru - Gwahoddiad i gyfarfod Arfon a Dwyfor - 1af Chwefror
- ng. Unllais Cymru - Ymgynghoriad ar ddiwygiadau drafft i ganllawiau Cynllunio ynglŷn â llifogydd ac erydu arfordirol
- h. Unllais Cymru - Pecyn cynhadledd 27/10/22. Pwysigrwydd Cyngorau Cymuned a Thref wrth Adeiladu lleoedd cydnerth ar gyfer natur.
- i. Unllais Cymru - Dyddiadau Hyfforddiant Ionawr, Chwefror a Mawrth.
- l. Unllais Cymru - Utility Aid
- ll. Cyngor Tref Pwllheli - Baner Ambiwllans Awyr

## Cynllunio

Rhestrau - 2/1, 9/1, 16/1, 23/1, 30/1

## Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/447A - Gosod mast monopol 20m uchder, 3 antena, 3 caban offer ar dir Fferm Pen y Gaer, Garndolbenmaen - Dim gwrthwynebiad.

C23/0042/36/TC - Plas Llecheiddior Bungalow, Bryncir, LL51 9EZ. Tystysgrif defnydd cyfreithlon ar gyfer tŷ annedd.

### **14. Materion Ariannol:**

Ceisiadau am arian: Dim

Monitro'r gyllideb Dim Gorwariant

#### Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	=	£ 282.20
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 70.55
HSBC	=	£ 14.00
Archwilio Cymru	=	£ 256.00
Defib Store	=	£1,537.44

#### Derbyniadau:

The Crag and Cave Club = £1,500.00

Balansau Cyfrifon Banc: Cyfredol: £23,240.19  
Cadw: £16,870.04

### **15. Dewis Gohebiaeth i'r Wasg:**

- Croesawu cynghorydd newydd
- Rhoddion Ariannol

- Gor-yrru ym Mryncir
- Hwb Eifionydd
- Etholiad Mis Mai